

WILLIAMS, DAVID (1793? - 1845), awdur llyfr Cymraeg a ysgrifennwyd yng ngwlad Mexico;

Enw: David Williams
Dyddiad geni: 1793?
Dyddiad marw: 1845
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: awdur
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Robert (Bob) Owen

Ganwyd c. 1793 yng Nglanwr, gerllaw Abertawe. Daeth yn aelod gyda'r Annibynwyr yn y Mynydd-bach. Ymfudodd i Mexico, gan adael Hwlfordd, Sir Benfro, ar 12 Mawrth 1825 a chyrraedd Vera Cruz ar 13 Mai; dysgodd beth Sbaeneg yn ystod y fordaith. Cyhoeddodd *Llythyrau Cymro yn Mexico at ei Gyfeillion yn Nglanwr wrth Abertawy ...* (Abertawy, 1827); cyhoeddwyd dwy ran allan o dair a arfaethid a chafwyd tri argraffiad yn yr un flwyddyn. Yn 1833 aeth yr awdur i U.D.A., gan ymsefydlu yn Allentown, Pennsylvania, a gweithio yn y Craneville Iron Works. Bu farw Mai 1845.

Awdur

Robert (Bob) Owen, (1885 - 1962)

Ffynonellau

Y Cyfaill cylchgrawn misol y Presbyteriaid Cymreig yn America (New York), 1845, 92

Llythyrau Cymro yn Mexico (Dafydd Williams) at ei gyfeillion yn Nglanwr, wrth Abertawy yn rhoddi hanes pob peth hynod a ganfu ar y môr; ac wedi tirio, rhodda hanes y wlad, ei brodorion, eu tai, eu gwisgoedd, eu dull o fyw, eu crefydd, etc.

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20804686](https://www.wikidata.org/wiki/Q20804686)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

